# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2016

Amser: 09.02 - 11.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3383

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>David Rees AC (yn lle Julie Morgan AC) |
| Tystion: | Gareth Bullock, Cyllid Cymru<br>James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Mark Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) |

| | |
|---|---|
| | Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 311KB) Gweld fel HTML (351KB)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan. Roedd David Rees yn dirprwyo.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papur. Cytunodd yr Aelodau i gynnwys argymhelliad yn ei Adroddiad Etifeddiaeth bod y Pwyllgor olynol yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r pwnc hwn.

### 2.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 3 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: Trafod ymatebion i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Nododd yr Aelodau yr ymatebion a chytunwyd i gynnwys argymhelliad yn Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor bod y Pwyllgor olynol yn gofyn am ddiweddariad pellach ar y cynnydd a wnaed yn ystod hydref 2016.

3.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch cymhlethdod gosod Band Eang (R1), y gost bosibl yn ychwanegol at werth y talebau sydd ar gael (R2), beth mae 'deinamig' yn ei olygu i'r defnyddiwr (R8), a disgrifiad o sut y gellir gwella'r wefan.

## 4 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru, a Gareth Bullock, Cadeirydd Cyllid Cymru plc, ar Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru.

4.2 Cytunodd James Price i wneud yr hyn a ganlyn:

- Rhoi eglurhad ynghylch cyfansoddiad y panel dethol, pryd y cafodd penodiadau'r panel cynghori eu gwneud, a nifer yr aelodau a benodwyd o du allan i Gymru;

- O fewn Llywodraeth Cymru, gofyn a ddylid rhannu'r cyngor cyfreithiol y mae Llywodraeth Cymru yn ei geisio â chyrff hyd braich;
- Cadarnhau lefel y cyllid grant a gynigiwyd i ReNeuron; ac
- Eglurhad ynghylch a gafodd cofnodion llawn eu cymryd yng nghyfarfodydd WIDAB ar 18 Mehefin 2013 a 24 Hydref 2013.

4.3 Cytunodd Gareth Bullock i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ffioedd trefnu sy'n daladwy i Reolwyr y Gronfa gan Gwmnïau Buddsoddi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Am fod amser yn brin, cytunodd yr Aelodau i drafod y dystiolaeth a gafwyd yn y cyfarfod ar 15 Mawrth 2016.